Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Materion Ewrop

## Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r UE

## Rhifyn 11 – Chwefror 2009



www.cynulliadcymru.org

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r unfed rhifyn ar ddeg o Materion Ewrop, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Ysgrifennaf y cyflwyniad hwn ar ddiwedd ymweliad deuddydd â Brwsel, sydd wedi cynnwys cyfres o gyfarfodydd ag uwch swyddogion y Comisiwn, Llywodraeth y DU, Eluned Morgan, yr Aelod Seneddol Ewropeaidd, ac unigolion amlwg eraill gyda'r bwriad o gynorthwyo gwaith y Pwyllgor yn ystod 2009. Yn benodol, roeddem yn canolbwyntio ar yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant a'r ymateb Ewropeaidd i'r argyfwng ariannol ac economaidd. Dyma'r materion sy'n hawlio'r sylw mwyaf, wrth i Gymru a gweddill Ewrop wynebu heriau sylweddol.



Aelodau'r Pwyllgor gyda Dirk Ahner, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth dros Bolisi Rhanbarthol

Mae Danuta Hübner, y Comisiynydd Polisi Rhanbarthol, wedi cytuno i roi tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant, ac rydym yn gobeithio trefnu hyn ar gyfer ein cyfarfod ar 23 Mawrth. Cafwyd cyfarfod hefyd â Graham Meadows, cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol sydd ar hyn o bryd yn gynghorwr arbennig i'r Comisiynydd Ewropeaidd, Vladimir Spidla a Llywodraeth Tsieina ar bolisi rhanbarthol. Byddwn yn clywed tystiolaeth ganddo yn hwyrach yn ystod yr ymchwiliad.

Ar 20 Ionawr, rhoddodd Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, y diweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argyfwng ariannol ac economaidd, o fewn fframwaith cynigion y Cynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd a gynigiwyd gan y Comisiwn ym mis Tachwedd. Trefnwyd cyfarfod arall ar gyfer 10 Mawrth, ac mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu hefyd yn ystyried y pwnc hwn fel rhan o'i ymchwiliad newydd.

Ar 3 Chwefror, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar gyfer ei Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol gan Bernard Merkel, pennaeth yr uned yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Iechyd a Materion Cwsmeriaid yn y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod ein cyfarfod ar 24 Chwefror a'r ddau gyfarfod ym mis Mawrth, byddwn yn clywed tystiolaeth gan nifer o sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru, gyda'r bwriad o gwblhau'r dasg o gasglu'r dystiolaeth cyn y Pasg.

Bydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cychwyn ymchwiliad newydd yn fuan i edrych ar effaith llifogydd yng Nghymru. Bydd yr ymchwiliad yn edrych ar brofiadau mewn rhannau eraill o Ewrop. Mae'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi dechrau cymryd tystiolaeth ar eu hymchwiliadau newydd hwy. Mae'r naill yn ymchwilio i gynhyrchu a hyrwyddo bwyd o Gymru a'r llall yn ymchwilio i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd.

Mae hon yn agenda brysur ac yn un sy'n dangos y ffordd y mae'r Cynulliad yn ymwneud â datblygiadau ehangach Ewropeaidd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni wynebu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd heriol, sy'n gofyn fwy nag erioed am gydweithio a chydlynu ar lefel Ewropeaidd a byd-eang.

Yn olaf, caswom newyddion trist yr wythnos hon y bu farw Jan Winkler, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec i'r DU, ddyddiau'n unig ar ôl iddo ymweld â Chaerdydd i siarad â'r Pwyllgor. Cydymdeimlwn yn fawr â'i deulu a'i gyfeillion.



**Sandy Mewies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

# Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol:** ar 24 Chwefror bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan GIG Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain, a threfnwyd sesiynau pellach ar gyfer 10 Mawrth a 23 Mawrth gyda'r proffesiynau gofal iechyd a chynrychiolwyr cleifion.

- **Yr Argyfwng Economaidd ac Ariannol:** ar 10 Mawrth bydd y Prif Weinidog yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor am yr argyfwng.

- **Ymchwiliad i Ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** rydym yn gobeithio y bydd y Comisiynydd Ewropeaidd, Danuta Hübner, yn rhoi tystiolaeth ar 23 Mawrth, er nad yw hyn wedi ei gadarnhau eto.

- **Y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru:** ar 24 Chwefror bydd Andy Klom, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn rhoi'r diweddaraf am weithgareddau'r UE yng Nghymru.

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol:** mae'r Pwyllgor yn bwriadu clywed tystiolaeth gan Ffederasiwn y Busnesau Bach a Venture Capital Wales ar 26 Chwefror, gan Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector ar 5 Mawrth, a chan TUC Cymru, y CBI a nifer o academyddion economaidd blaenllaw ar 12 Mawrth.

## Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru**: bydd yr ymchwiliad hwn yn dechrau'n fuan a bydd yn edrych ar effeithiau llifogydd ar unigolion a chymunedau, ac ar yr ymateb i achosion o lifogydd gan y prif randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a chwmnïau yswiriant. Yn ogystal â gwrando ar dystiolaeth o'r DU, bydd y Pwyllgor hefyd yn ymweld ag

amryw o leoliadau Ewropeaidd er mwyn cael tystiolaeth o arfer da wrth reoli llifogydd.

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig:** mae'r Pwyllgor yn bwriadau cymryd tystiolaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o'r ymchwiliad; fodd bynnag, mae agendâu'r Pwyllgor ar gyfer 5 Mawrth a 26 Mawrth yn dal i gael eu paratoi.

# Edrych yn ôl: pynciau'n ymwneud â'r UE y bu pwyllgorau'r Cynulliad yn eu trafod

## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Blaenoriaethau Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec:** ar 3 Chwefror cyflwynodd Mr Jan Winkler, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec i'r DU, flaenoriaethau'r wlad yn ystod ei Llywyddiaeth chwe mis o'r Undeb Ewropeaidd.

- **Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol:** lansiwyd yr ymchwiliad ar 3 Chwefror pan roddodd Bernard Merkel, Pennaeth yr Uned yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Iechyd a Chwsmeriaid, dystiolaeth i'r Pwyllgor ar safbwynt y Comisiwn Ewropeaidd.

- **Diweddariad gan y Prif Weinidog:** yn ystod y cyfarfod ar 20 Ionawr rhoddodd y Prif Weinidog y newyddion diweddaraf am y Cynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd, a blaenoriaethau Ewropeaidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2009.

- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** rhoddodd Christine Chapman y diweddaraf am waith cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau ers yr haf, gan gynnwys cyfarfod o ddirprwyaeth y DU yn Llundain ar 12 Ionawr; cynlluniau ar gyfer seminar yng Nghymru yn yr hydref; ac adroddiad gan y Cynghorydd Bob Bright, aelod llawn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar y gyfarwyddeb arfaethedig ynghylch gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol.

- **Ymchwiliad i Sybsidiaredd:** cytunwyd ar adroddiad yr ymchwiliad mewn sesiwn breifat ar 3 Chwefror a chaiff ei gyhoeddi'n fuan.

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol:** ym mis Ionawr cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r maes hwn, a chafwyd diweddariad gan y Dirprwy Brif Weinidog ar 12 Chwefror ar y camau a gymerwyd ers mis Hydref i ymateb i'r sefyllfa argyfyngus.

## Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru**: mae'r Pwyllgor wedi cwblhau clywed tystiolaeth ar y ddau bwnc olaf fel rhan o'i ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: y defnydd o dir a chynllunio. Mae'r ymchwiliad yn edrych ar sut y gall Cymru gyrraedd ei thargedau cenedlaethol a rhyngwladol i leihau allyriadau carbon. Bwriedir cyhoeddi adroddiad terfynol yr ymchwiliad ym mis Mai 2009.

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Ymchwiliad i'r Adolygiad o Echel 2 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013:** cyhoeddwyd yr adroddiad ddydd Llun, 2 Chwefror 2009 ac mae ar gael yma ar wefan y Cynulliad.

- **Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig:** cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod cyhoeddus yn Theatr Brycheiniog, Aberhonddu, ar 5 Chwefror, a chyhoeddodd alwad am dystiolaeth ysgrifenedig (a ddaeth i ben ar 13 Chwefror) gan arbenigwyr ac unrhyw un â diddordeb yn y maes hwn.

## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

- **Ymchwiliad i Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd**: ar 15 Ionawr clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, Amgueddfa Cymru a BBC Cymru. Ar 12 Chwefror, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gydag ystod eang o artistiaid ac academyddion o bob rhan o Gymru, gan gynnwys NoFitState Circus, Theatr Volcano, Urdd Gwneuthurwyr Cymru, Stefhan Caddick, Peter Finnemore, Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Cymru, Casnewydd.

# Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

- **Ymweliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol â Brwsel, 10-12 Chwefror:** cyfarfu'r Pwyllgor ag Eluned Morgan ASE, Kim Darroch (Cynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE), Dirk Ahner (Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol), Nikolaus van der Pas (Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal), Graham Meadows (cyn-Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol a Chynghorwr arbennig i'r Comisiynydd Ewropeaidd, Vladimir Spidla), John Bensted-Smith (y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Amaeth a Datblygu Gwledig), Chris Allan (y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Fenter a Diwydiant), ac Eleni Marianou (Cyfarwyddwr Swyddfa Brwsel De-orllewin y DU).

- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Bydd Christine Chapman yn mynd i gyfarfod nesaf y Comisiwn Economaidd a Materion Cymdeithasol ar 19 Chwefror. Cyflwynodd Christine adroddiad ar weithgareddau aelodau Cymreig Pwyllgor y Rhanbarthau i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 3 Chwefror. Roedd hyn yn cynnwys newyddion am gyfarfod o ddirprwyaeth y DU ar 12 Ionawr pryd cynhaliodd dirprwyaeth Cymru gyfarfod cyn y prif gyfarfod er mwyn trafod gwaith y dyfodol. Trafodwyd hefyd roi cefnogaeth i'r aelodau hynny o Gymru sy'n gwneud gwaith rapporteur ym Mhwyllgor y Rhanbarthau, fel y digwyddodd yn achos y Cynghorydd Bob Bright, aelod llawn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, a gyflwynodd adroddiad mewn perthynas â'r gyfarwyddeb arfaethedig ar Wasanaethau Cyhoeddus Cyffredinol, a fabwysiadwyd yn sesiwn y Cyfarfod Llawn ar 13 Chwefror.

- **Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad:** cynhaliodd y gangen ei chyfarfod blynyddol cyffredinol ar 10 Chwefror er mwyn ailethol Janet Ryder AC fel Cadeirydd, ailethol pwyllgor gweithredol y gangen (Alun Cairns, Jeff Cuthbert, Mike German OBE a Janet Ryder), ac ailethol Ysgrifennydd (Claire Clancy, Prif Weithredwr Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Ar 10 Mawrth cynhelir digwyddiad yn y Senedd i ddathlu Diwrnod y Gymanwlad ac mae ystod o weithgareddau eraill wedi eu trefnu dros y misoedd nesaf.

- **IABP-Moldova:** ymwelodd grŵp trawsbleidiol o Aelodau Cynulliad â Moldova yn ystod y toriad hanner tymor (15-20 Chwefror), fel rhan o brosiect sydd â'r bwriad o hwyluso integreiddio a chydlynu aelodau seneddol a swyddogion ar lefel genedlaethol ac is-genedlaethol. Ymwelodd Mike German OBE, Bethan Jenkins a Nick Ramsay â deddfwrfeydd yn Chisinau, prif ddinas Moldova ac yn Comrat, prif ddinas rhanbarth hunanlywodraethol Gagauzia. Trefnwyd y

fenter drwy'r International Association of Business and Parliament – Moldova, ar y cyd â Chymdeithas Diwydiant a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (I-NAW).

# Lincs

Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Hysbysiad Busnes y Cynulliad
Tudalennau'r Pwyllgorau
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

# Am ragor o wybodaeth

Cysylltwch â:
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn 0032 2 226 66 92

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.